# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

## Polisi Trwyddedu Tacsi a Llogi Preifat

## Meini Prawf Ffitrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Nod y polisi hwn yw darparu canllawiau ar y meini prawf a ystyrir gan y cyngor wrth benderfynu a yw ymgeisydd neu ddeiliad trwydded bresennol yn iach a chymwys i fod yn ddeiliad trwydded gweithredu cerbyd hacni a/neu yrrwr cerbyd llogi preifat.

1.2 Nod y polisi yw amddiffyn diogelwch y cyhoedd. Mae’n rhaid i’r Awdurdod Trwyddedu sicrhau:

- Fod unigolyn yn iach a chymwys;
- Nad yw’r unigolyn yn fygythiad i’r cyhoedd;
- Bod y cyhoedd yn cael eu diogelu rhag unigolion anonest;
- Bod plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn;
- Bod unigolion sy’n agored i niwed yn cael eu hamddiffyn;
- Bod gan y cyhoedd hyder yn eu defnydd o gerbydau sydd wedi cael eu trwyddedu.

1.3 Ceisia’r polisi hwn ddarparu canllawiau i unrhyw berson sydd â diddordeb mewn trwydded llogi gyhoeddus a phreifat. Yn bennaf, ond nid yn gyfyngedig i:

- Geisiadau am drwyddedau gyrru/gweithredu
- Gyrwyr/gweithredwyr presennol y mae eu trwyddedau’n cael eu hadolygu
- Swyddogion Trwyddedu a’r Heddlu
- Aelodau o’r Pwyllgor/Panel Trwyddedu (neu unrhyw gorff arall sy’n gwneud penderfyniadau)
- Gwrandawiadau apêl yn Llys yr Ynadon neu’r Goron yn erbyn penderfyniadau’r awdurdod lleol

1.4 Lle bydd swyddogion trwyddedu wedi eu dirprwyo i warantu trwyddedau, byddant yn defnyddio’r canllawiau hyn wrth wneud eu penderfyniadau. Ymhob achos arall, bydd ceisiadau ar gyfer trwyddedau’n cael eu cyfeirio at y pwyllgor/panel trwyddedu (neu unrhyw gorff perthnasol arall sy’n gwneud penderfyniadau.) Bydd swyddogion a’r pwyllgor/panel yn ystyried y canllawiau hyn ond **bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol, gan ystyried ei gryfderau** a lle y bydd amgylchiadau yn gorfodi hynny, gall y pwyllgor/swyddog wyro oddi wrth y canllawiau.

1.5 Bydd methiant ar ran ymgeiswyr i ddatgelu unrhyw euogfarnau cynt ar eu ffurflenni cais; rhybuddion; hysbysiadau cosb, gorchmynion neu gerydd neu unrhyw fater arall, gan gynnwys unrhyw weithdrefnau cyfreithiol sydd heb eu cwblhau eto yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniad ar y cais.

## 2.0 Polisi Cyffredinol

2.1 Ystyrir cryfder pob achos unigol wrth wneud penderfyniad.

2.2 Ni fydd person sydd wedi derbyn euogfarn am drosedd ddifrifol yn cael ei rwystro'n awtomatig rhag derbyn trwydded ond bydd disgwyl iddo:

a. Fod yn rhydd o unrhyw euogfarnau am gyfnod penodol (fel y nodir isod); a
b. Dangos tystiolaeth ei fod ef neu hi yn berson iach a chymwys i fod yn ddeiliad trwydded (rhaid i'r ymgeisydd arddangos tystiolaeth o hyn.)

2.3 At ddibenion y Polisi hwn, gall 'materion eraill y dylid eu hystyried' gynnwys ond nid ydynt yn gyfyngol i'r canlynol:

a) Euogfarnau troseddol/traffig;
b) Llys Milwrol;
c) Rhybuddion;
d) Hysbysiadau Tâl Cosb neu Hysbysiadau Cosb eraill;
e) Gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol neu orchmynion tebyg eraill;
f) Torri amodau trwyddedau;
g) Rhybudd neu Gerydd ffurfiol;
h) Cyhuddiadau neu faterion sy'n aros am wrandawiad llys;
i) Ffitrwydd a Phriodoldeb.

2.4 Lle bydd gan ymgeisydd euogfarn(au) neu unrhyw fater(ion) eraill y dylid eu hystyried sy'n droseddol, ni all y cyngor adolygu cryfderau'r euogfarn neu unrhyw fater arall.

2.5 Lle bydd gan ymgeisydd/deiliad trwydded euogfarn neu unrhyw fater y dylid eu hystyried fel trosedd o helpu ac annog, ymgeisio, cynllwynio, cwnsela, achosi, caniatáu neu beri unrhyw un o'r euogfarnau troseddol neu draffig / materion a nodwyd yn y canllaw hwn, byddant yn cael eu hystyried yn berthnasol ac yn fater parhaol.

## 3.0 Apeliadau

3.1 Mae gan unrhyw ymgeisydd y gwrthodwyd rhoi trwydded gyrrwr/gweithredu iddo neu unrhyw yrrwr/gweithredwr trwyddedig sydd wedi cael ei wahardd neu ei ddirymu'r hawl i apelio yn Llys yr Ynadon oddi fewn i 21 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad.

## 4.0 Pwerau

4.1 Mae pwerau sy’n gwarantu trwyddedau gyrrwr/gweithredwr wedi eu cynnwys oddi fewn i Adran 51, Adran 55 ac Adran 59 o Ddeddf (Darpariaethau Amrywiol) Llywodraeth Leol 1976 (y Ddeddf.)

4.2 Mae pwerau i atal, dirymu neu wrthod adnewyddu trwydded gyrrwr yn cael eu cynnwys oddi fewn i Adran 61 o’r Ddeddf, lle mae’r ymgeisydd/deiliad y drwydded wedi cael ei gyhuddo o drosedd sy’n ymwneud ag anonestrwydd, anweddustra, trais; methiant i gydymffurfio â darpariaethau Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847; methiant i gydymffurfio â darpariaethau Rhan ll o Ddeddf (Darpariaethau Amrywiol) Llywodraeth Leol 1976; neu unrhyw achos rhesymol arall.

4.3 Mae Adran 61 (2B) yn caniatáu’r Awdurdod Trwyddedu i wrthod neu ddirymu trwydded gyrrwr yn syth os fyddai gwneud hynny er lles diogelwch y cyhoedd. Bydd Hysbysiad Penderfyniad yn esbonio pam y gwnaethpwyd y penderfyniad hwn yn cael ei roi i’r gyrrwr a bydd mewn grym ar ôl i’r gyrrwr ei dderbyn. Gall y gyrrwr apelio’r penderfyniad ond ni chaniateir iddo yrru yn ystod cyfnod yr apêl.

4.4 Mae Adran 62 y Ddeddf yn caniatáu’r Awdurdod Trwyddedu i atal, dirymu, neu wrthod adnewyddu trwydded gweithredu os yw’r ymgeisydd/deiliad y drwydded wedi cael ei gyhuddo o drosedd o dan neu sy’n anghydffurfio â darpariaethau Rhan II o’r Ddeddf; neu ar sail unrhyw ymddygiad ar ran y gweithredwr sy’n ymddangos i’r cyngor i’w wneud yn anghymwys, neu yn sgil unrhyw newid yn amgylchiadau’r gweithredwr ers i’r drwydded gael ei gwarantu neu unrhyw reswm rhesymol arall.

4.5 Mae Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau)(Diwygiad) Gorchymyn 2002, yn caniatáu’r i’r Awdurdod Trwyddedu gymryd i ystyriaeth pob euogfarn a gofnodir yn erbyn yr ymgeisydd neu ddeiliad trwydded cerbyd llogi preifat neu drwydded yrru cerbyd hacni, boed yr euogfarn honno yn dal mewn grym ai peidio. Bydd gofyn i’r Awdurdod Trwyddedu ystyried pob euogfarn berthnasol, yn enwedig pan fydd hanes o droseddu neu batrwm diweddar o aildroseddu.

## 5.0 Ystyried hanes troseddol sy’n cael ei ddatgelu

5.1 O dan ddarpariaethau Adrannau 51, 55, a 59 o’r Ddeddf, mae’n ofynnol i’r Awdurdod Trwyddedu sicrhau fod ymgeisydd ar gyfer gwarantu neu adnewyddu trwydded yrru/gweithredu yn unigolyn iach a chymwys i fod yn ddeiliad ar drwydded o’r fath. Fodd bynnag, os oes gan ymgeisydd / deiliad y drwydded unrhyw fater y dylid ei ystyried, gall yr Awdurdod Trwyddedu ystyried:

:

- Perthnasedd y drosedd/troseddau i'r math o drwydded yr ymgeisir amdani;
- Difrifoldeb y drosedd/troseddau;
- Pryd y cafodd y drosedd/troseddau ei/eu gwneud;
- Dyddiad y cyhuddiad ac oed yr ymgeisydd ar y pryd;
- Dedfryd y Llys;
- Os ydynt yn ffurfio rhan o batrwm troseddol;
- Unrhyw ffactorau eraill fedrai fod yn berthnasol.

## 6.0 Trais

6.1 Mae gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad cyson â'r cyhoedd. Bydd safbwynt difrifol yn cael ei gymryd tuag at y rheini sydd wedi eu cyhuddo o drais. Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu os byd ymgeisydd / deiliad y drwydded yn cael ei gyhuddo o drosedd a fydd yn arwain at golli bywyd.

6.2 Mewn achosion eraill, bydd unrhyw un a fydd wedi bod yn ymddwyn yn dreisgar yn debygol o fod ar drwydded **hyd at o leiaf 3 mlynedd** wedi'r cyhuddiad(au) neu unrhyw fater/faterion eraill y dylid eu hystyried. Fodd bynnag, o achos graddfa amrywiol y troseddau sy'n ymwneud â thrais, rhaid rhoi ystyriaeth i natur y drosedd.

6.3 Oni bai bod amgylchiadau neilltuol, bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu os bydd gan ymgeisydd / deiliad trwydded gyhuddiad am drosedd tebyg i'r canlynol:

- Llofruddiaeth;
- Dynladdiad;
- Dynladdiad neu ddynladdiad wrth yrru;
- Troseddau Terfysgaeth;
- Neu unrhyw drosedd debyg neu droseddau sy'n cymryd lle'r uchod.

6.4 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded gyhuddiad/gyhuddiadau neu unrhyw fater arall a ystyrir i fod yn drosedd fel y rhestrir isod ac mae'r cyhuddiad(au) neu'r mater(ion) yr ystyrir wedi digwydd **llai na 10 mlynedd** ers dyddiad y cais hwn:

- Gwir niwed corfforol sydd wedi ei sbarduno gan hiliaeth / crefydd;
- Cynnau tân yn fwriadol;
- Ymosod ar yr Heddlu;
- Ymosodiad cyffredin sydd wedi ei sbarduno gan hiliaeth / crefydd;
- Niwed troseddol sydd wedi ei sbarduno gan hiliaeth / crefydd;
- Niwed corfforol difrifol, bwriadol. (Adran 18)

- Niweidio maleisus neu niwed corfforol difrifol (Adran 20)
- Bod mewn meddiant o wn;
- Osgoi cael eich arestio;
- Terfysg;
- Lladrad;
- Anrhefn dreisgar;
- Unrhyw drosedd debyg neu droseddau sy’n cymryd lle’r uchod.

6.5 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded gyhuddiad/gyhuddiadau neu unrhyw fater arall a ystyrir i fod yn drosedd fel y rhestrir isod ac mae’r cyhuddiad(au) neu’r mater(ion) yr ystyrir wedi digwydd **llai na 3 mlynedd** ers dyddiad y cais hwn:

- Affráe;
- Ymosodiad yn achosi gwir niwed corfforol; (Adran 47)
- Ymosodiad cyffredin;
- Difrod troseddol;
- Rhwystro;
- Bod ym meddiant arf (neu arf ffug) neu unrhyw drosedd arall sy’n ymwneud ag arfau nad sy’n ynnau;
- S5 Trosedd sy’n ymwneud â Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 (aflonyddwch, dychryn neu ofid;)
- S.4 Trosedd sy’n ymwneud â Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 (ofn cynhyrfu trais;)
- S4A Trosedd sy’n ymwneud â Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 (aflonyddwch bwriadol, dychryn neu ofid;)
- Unrhyw drosedd debyg neu droseddau sy’n cymryd lle’r uchod.

6.6 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os fydd gan ymgeisydd mwy nag un cyhuddiad neu fater arall y dylid ei ystyried yn ystod y **10 mlynedd** ddiwethaf am drosedd o natur dreisgar.

## 7.0 Troseddau Rhyw ac anweddustra

7.1 Gan y bydd gyrwyr trwyddedig yn aml yn cario teithwyr unigol ac sy’n agored i niwed, mae’n rhaid bod yn gadarn gyda’r rheini sydd wedi eu cyhuddo o droseddau neu faterion a ystyrir i fod yn rhai rhywiol. Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu ar gyfer cyhuddiadau neu faterion eraill a ystyrir i fod yn rhai o natur rywiol, ddifrifol. Ar gyfer troseddau eraill, bydd disgwyl i ymgeiswyr arddangos cyfnod helaeth yn rhydd o unrhyw gyhuddiad neu unrhyw fater arall a ddylid ei ystyried cyn y gall y cais gael ei gymeradwyo.

7.2 Os nad oes amgylchiadau eithriadol, bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu drwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu os oes gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded euogfarn(au) neu fater(ion) yr ystyrir i fod yn drosedd, tebyg i:

- Ymosodiad trwy ymdreiddiad;
- Ymelwa o buteinio;
- Ymosodiad anweddus;
- Troseddau sy'n ymwneud â phlant neu oedolion sy'n agored i niwed;
- Bod ym meddiant lluniau anweddus, pornograffi sy'n ymwneud â phlant ac ati;
- Trais;
- Ymosodiad Rhywiol;
- Masnachu ar gyfer rhyw neu ymelwad arall;

- Unrhyw drosedd debyg neu droseddau sy'n cymryd lle'r uchod.

7.3 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded gyhuddiad/gyhuddiadau neu unrhyw fater arall a ystyrir i fod yn drosedd fel y rhestrir isod ac mae'r cyhuddiad(au) neu'r mater(ion) yr ystyrir wedi digwydd **llai na 7 mlynedd** ers dyddiad y cais hwn:

- Dinoethiad anweddus;
- Hel puteiniaid o gerbyd;
- Unrhyw drosedd debyg neu droseddau sy'n cymryd lle'r uchod.

7.4 Yn ychwanegol at yr uchod, mae'n annhebygol y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gwarantu trwydded i unrhyw ymgeisydd sydd ar hyn o bryd ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw.

7.5 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os oes gan ymgeisydd mwy nag un euogfarn yr ystyrir iddynt fod yn droseddau rhywiol.

## 8.0 Anonestrwydd

8.1 Disgwylir i ymgeisydd neu ddeiliad trwydded gyfredol fod yn berson gonest. Maent yn delio ag arian ac eiddo gwerthfawr, sydd weithiau'n cael eu gadael yn eu cerbydau. Disgwylir i ddeiliaid Trwyddedu adael eitemau o'r fath gyda'r Heddlu oddi fewn i 24 awr. Mae'r ymarfer o ddosbarthu eiddo heb fod neb yn eu hebrwng yn dangos ymddiriedaeth pobl busnes mewn gyrwyr trwyddedig. Mae hefyd yn gymharol hawdd i yrrwr anonest dwyllo'r cyhoedd drwy fynnu mwy na'r tâl cyfreithiol y cytunwyd arno ac ati. Gall teithwyr o dramor fod yn ansicr o'n harian a bod yn agored i gael

eu twyllo gan yrrwr anegwyddorol. Am y rhesymau yma, cymerir safbwynt difrifol iawn am unrhyw euogfarnau yn sgil anonestrwydd.

8.2 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded gyhuddiad/gyhuddiadau neu unrhyw fater arall a ystyrir i fod yn drosedd fel y rhestrir isod ac mae'r cyhuddiad(au) neu'r mater(ion) yr ystyrir wedi digwydd **llai na 3 mlynedd** ers dyddiad y cais hwn:

- Twyll Budd-daliadau;
- Lladrad;
- Cynllwynio i dwyllo;
- Ffugio;
- Twyll;
- Bod ym meddiant neu dderbyn nwyddau sydd wedi cael eu dwyn;
- Derbyn arian neu eiddo trwy dwyll;
- Math arall o ddichell;
- Mynd â cherbyd heb ganiatâd;
- Dwyn;
- Unrhyw drosedd debyg neu droseddau sy'n cymryd lle'r uchod.

## 9.0 Cyffuriau

9.1 Cymerir safbwynt difrifol ynghylch unrhyw drosedd sy'n ymwneud â chyffuriau. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried natur a maint y cyffuriau sydd o dan sylw wrth ymdrin â'r troseddau canlynol:

- Tyfu cyffur sydd wedi ei reoleiddio;
- Mewnforio cyffur sydd wedi ei reoleiddio;
- Cynhyrchu cyffur sydd wedi ei reoleiddio;
- Darparu cyffur sydd wedi ei reoleiddio;
- Neu droseddau tebyg

Formatted: Bullets and Numbering

9.2 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded gyhuddiad/gyhuddiadau neu unrhyw fater arall a ystyrir i fod yn drosedd fel y rhestrir uchod ac nad yw wedi bod yn rhydd o unrhyw euogfarn(au) neu unrhyw fater/faterion eraill y dylid eu hystyried **am o leiaf 5 mlynedd.**

9.3 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd fwy nag un euogfarn neu unrhyw fater arall y dylid ei ystyried am droseddau sy'n ymwneud â bod mewn meddiant o gyffuriau ac nad yw wedi bod yn rhydd o unrhyw

euogfarn(au) neu unrhyw fater/faterion eraill y dylid eu hystyried **am o leiaf 5 mlynedd.**

9.4 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deilaid y drwydded euogfarn unigol neu unrhyw fater arall y dylid ei ystyried parthed trosedd sy'n ymwneud â bod mewn meddiant o gyffuriau oddi fewn i'r **3 mlynedd ddiwethaf.** Dylid rhoi ystyriaeth i natur a faint o gyffuriau y sonnir amdanynt.

9.5 Os oes tystiolaeth o ddefnydd cyffuriau parhaol, camddefnydd neu ddibyniaeth, gellir gofyn am archwiliad meddygol, arbenigol (yn unol â safonau meddygol Grŵp 2 y DVLA.) Os oedd yr ymgeisydd yn gaeth i gyffuriau, bydd angen iddo ddangos tystiolaeth ei fod wedi bod yn rhydd o gyffuriau am y **3 mlynedd ddiwethaf.**

**10.0 Troseddau Gyrru sy'n arwain at golli bywyd**

10.1 Cymerir safbwynt difrifol ynghylch unrhyw ymgeisydd neu ddeiliad trwydded gyfredol sydd wedi ei gyhuddo neu unrhyw fater arall y dylid ei ystyried o drosedd foduro sydd wedi arwain at golli bywyd.

10.2 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deilaid y drwydded gyhuddiad/gyuhuddiadau neu unrhyw fater arall a ystyrir i fod yn drosedd fel y rhestrir isod ac nad yw wedi bod yn rhydd o gyhuddiad neu unrhyw fater arall a ystyrir am **7 mlynedd.**

- Achosi marwolaeth trwy yrru esgeulus tra o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau;
- Achosi marwolaeth trwy yrru peryglus;
- Unrhyw droseddau tebyg.

10.3 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deilaid y drwydded gyhuddiad/gyuhuddiadau neu unrhyw fater arall a ystyrir i fod yn drosedd fel y rhestrir isod ac nad yw wedi bod yn rhydd o gyhuddiad neu unrhyw fater arall a ystyrir am **5 mlynedd.**

- Achosi marwolaeth trwy yrru esgeulus;
- Achosi marwolaeth trwy yrru: heb drwydded, ar ôl cael eich anghymwyso neu heb yswiriant.

**11.0 Yfed a gyrru/gyrru o dan ddylanwad cyffuriau**

11.1 Cymerir safbwynt difrifol ynghylch euogarn(au) neu fater/faterion eraill y dylid eu hystyried ar gyfer gyrru neu fod yn gyfrifol am gerbyd tra o dan ddylanwad alcohol/cyffuriau. Ni all un euogfarn neu fater arall y dylid ei ystyried o reidrwydd arwain at y cais yn cael ei wrthod neu drwydded gyfredol yn cael ei gwrthod neu ei dirymu, os oes **o leiaf 3 mlynedd** wedi bod ers diwedd y gwaharddiad. Bydd euogfarn neu unrhyw fater arall y dylid ei ystyried am ôwrthod neu fethu â darparu sbesimenôyn cael ei drin yn yr un modd.

11.2 Bydd yn annhebygol y bydd ymgeiswyr sydd â mwy nag un euogfarn neu unrhyw fater arall y dylid eu hystyried ar gyfer gyrru neu fod yn gyfrifol am gerbyd tra o dan ddylanwad alcohol/cyffuriau neu wrthod neu fethu darparu sbesimen yn derbyn trwydded oni bai bod cyfnod o **10 mlynedd** wedi bod ers iôr drwydded gael ei hadfer yn dilyn y cyhuddiad diwethaf neu unrhyw fater arall y dylid eu hystyried.

## 12.0 Euogfarnau Moduro

12.1 Troseddau Traffig Difrifol

12.2 At fwriadauôr polisi hwn, dosbarthir y troseddau moduro canlynol fel ôTroseddau Traffig difrifolô

| | |
|---|---|
| AC10 | Methiant i stopio wedi damwain |
| AC20 | Methiant i roi manylion neu nodi damwain odi fewn i 24 awr |
| AC30 | Damweiniau na ddiffinnir |
| BA10 | Gyrru yn ystod gwaharddiad gorchymyn Llys |
| BA30 | Ceisio gyrru yn ystod gwaharddiad gorchymyn Llys |
| DD40 | Gyrruôn beryglus |
| DD90 | Gyrruôn gandryll |
| IN10 | Defnyddio cerbyd heb yswiriant trydydd parti |
| LC20 | Gyrru heb gydymffurfio âôr drwydded |
| LC30 | Gyrru wedi gwneud datganiad anwir ynghylch ffitrwydd wrth ymgeisio am drwydded |
| LC40 | Gyrru cerbyd heb nodi anabledd |
| LC50 | Gyrru wedi i drwydded gael ei dirymu neu ei gwrthod ar sail feddygol |
| MS50 | Rasio ceir ar y briffordd |
| MS60 | Troseddau nad syôn cael eu cynnwys gan godau eraill |

| | |
|---|---|
| MS90 | Methiant i roi gwybodaeth am bwy oedd yn gyrru ac ati |
| UT50 | Mynd âô cerbyd mewn modd difrifol |

10.4 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deilaid y drwydded gyhuddiad neu unrhyw fater arall a ystyrir i fod yn drosedd draffig difrifol ac nad yw wedi bod yn rhydd o gyhuddiad neu unrhyw fater arall a ystyrir am **o leiaf 6 mis.**

12.4 Bydd ymgeisydd sydd wedi ei gyhuddo o fwy nag un Trosedd Traffig Difrifol, oddi fewn iô 5 mlynedd ddiwethaf fel arfer yn cael ei wrthod ac ni ddylaiô un cais pellach gael ei ystyried am **o leiaf 3 mlynedd** wedi iô euogfarnau neuô materion eraill y dylid eu hystyried ddod i ben.

12.5 Os fydd euogfarn neu unrhyw fater arall yr ystyrir fel Trosedd Draffig Difrifol yn arwain i waharddiad, dylai ymgeiswyr gyfeirio at yr adran yn y canllawiau hyn, o dan y teitl ñgwaharddiad.ò

12.6 **Gwahardd rhag Gyrru**

12.7 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn trin cyfnod gwaharddiad fel cyfnod y gallaiô gyrrwr fod wedi bod yn gymwys i weithio a gall ddiystyru penderfyniad y llys i ildio neu leihau cyfnod gwaharddiad naill ai ar sail caledi eithriadol o dan Adran 35 o Ddeddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988 neu am ñresymau arbennigò o dan Adran 34 o Ddeddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988.

12.8 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deilaid y drwydded euogfarn ddiweddar neu fater arall y dylid ei ystyried sydd wedi arwain at gyfnod o waharddiad am lai na 56 diwrnod oni bai bod cyfnod o **6 mis, o leiaf** wedi bod ers i ddiwedd cyfnod y gwaharddiad ddod i ben.

12.9 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deilaid y drwydded euogfarn ddiweddar neu fater arall y dylid ei ystyried sydd wedi arwain at gyfnod o waharddiad am hyd at 12 mis, onibai bod cyfnod o **12 mis, o leiaf** wedi bod ers diwedd cyfnod y gwaharddiad.

12.10 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deilaid y drwydded euogfarn ddiweddar neu fater arall y dylid ei ystyried sydd wedi arwain at gyfnod o waharddiad am 12 mis neu ragor, onibai bod cyfnod o **18 mis, o leiaf** wedi bod ers diwedd cyfnod y gwaharddiad.

12.11 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn gwarantu cais am drwydded gyrru llogi preifat na cherbyd hacni i berson sydd wedi cael ei wahardd rhag gyrru am gyfnod o 5 mlynedd neu fwy, onibai fod cyfnod o **7 mlynedd** wedi bod ers i ddiwedd cyfnod y gwaharddiad ddod i ben.

**13.0 Mân Euogfarnau Traffig**

13.1 Bydd Troseddau Traffig eraill nad ydynt wedi eu rhestri yn y polisi hwn yn cael eu trin fel ‘Mân Euogfarnau Traffig.’ Mân euogfarn yrru yw un sy’n rhoi hyd at 3 pwynt cosb ar y drwydded.

13.2 Pan fydd gan ymgeisydd/deiliad trwydded un euogfarn neu fater arall y dylid ei ystyried fel mân euogfarn yrru, ni fydd hyn fel arfer yn arwain at wrthod neu atal/dirymiad.

13.3 Gallai’r ffaith fod ymgeisydd/deilaid y drwydded wedi derbyn mwy na chwe phwynt cosb am fân droseddau traffig neu unrhyw fater arall y dylid ei ystyried arwain at wrthod neu atal/dirymiad, yn enwedig pan fydd mwy nag un cyhuddiad neu faterion eraill y dylid eu hystyried ar gyfer yr un drosedd e.e goryrru.

**14.0 Costau neu Wysiadau sy’n weddill**

14.1 Os yw ymgeisydd yn destun taliad neu wŷs sydd dal i fod mewn grym am unrhyw drosedd a nodwyd oddi fewn i’r polisi hwn, gellir parhau i brosesu’r cais ond er diogelwch i’r cyhoedd, bydd y mater yn cael ei ystyried a gall gael ei ohirio nes bod gweithdrefnau wedi dod i ben.

**15.0 Gwybodaeth am euogfarnau na gyhuddwyd**

15.1 Os oes unrhyw ddeiliad trwydded gyfredol wedi cael ei arestio neu ei gyhuddo o unrhywun o’r troseddau a nodwyd yn y polisi hwn ond nad yw wedi derbyn unrhyw euogfarn, sy’n awgrymu y gallai ef/hi fod yn berygl i’r cyhoedd, dylid ystyried atal/dirymu’r drwydded.

**16.0 Ail droseddu**

16.1 Tra ei bod yn bosibl fod gan ymgeisydd nifer o euogfarnau neu faterion eraill y dylid eu hystyried sy’n cwrdd â’r canllawiau uchod, bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod pan fydd gan ymgeisydd hanes o ail droseddu sy’n arddangos diffyg sylw i les eraill neu i eiddo onibai fod cyfnod o **10 mlynedd, o leiaf** wedi bod ers yr euogfarn ddiwethaf neu unrhyw fater arall y dylid eu hystyried.

**17.0 Torri Deddfwriaeth Drwyddedu, Is-ddeddf neu Amodau’r Drwydded**

17.1 Mae'n annhebygol y bydd ymgeisydd sydd ag euogfarn neu unrhyw fater arall y dylid ei ystyried sy'n torri'r ddeddfwriaeth drwyddedu, is-ddeddf neu amod y drwydded yn cael gwarant o drwydded onibai fod cyfnod o **12 mis, o leiaf** wedi bod ers y tramgwydd diwethaf.

17.2 Bydd deiliad trwydded gyfredol a fydd yn torri'r ddeddfwriaeth, is-ddeddf neu amodau'r drwydded am y tro cyntaf yn debygol o dderbyn rhybudd ysgrifenedig os nad yw'r tramgwydd wedi peryglu diogelwch teithwyr neu nad oedd perygl i'r cyhoedd.

17.3 Pan fydd deiliad cyfredol wedi torri'r ddeddfwriaeth drwyddedu, is-ddeddf neu amod y drwydded fwy nag unwaith neu fod un tramgwydd difrifol, gall y drwydded gael ei hatal neu ei dirymu.

17.4 Mae'r uchod heb ystyried unrhyw weithdrefnau cyfreithiol sydd ar waith.